

Er gwaked ei eirieu, 'r cynhaua
fo fydde
Yn chwareu am yscube'r
Escoblon.

Tro'r Escob o'i radde drud
werthu'r degymme,
I brynu modrwyne a lassie hardd
lun,
Chwi welsoch fawrhydi pob un
or comitti,
A rhenti'r Eglwysi ar ei glosyn.

* * *

FEL Y gellid disgwyl roedd y gair
'sect' yn air budr yng ngolwg y
prydyddion hyn ac y mae Edward
Morus yn arbennig o egr ei
gondemniad o'r Crynwyr am eu
gwaith honedig yn diystyru
cyfraith gwlad, yn ymwrthod â
rhai o fannau Credo'r Apostolion
ac yn ddibris o'r prif sagrafennau.
Wftia, hefyd, at wragedd yn
trafod yr ysgrythurau:

Och ddirfawr ryfygu fod
gwagedd on deutu,
Yn mynd i athrawiaeth(u)
weithian drwy'r wlad ...
Sefydliadau 'ffiaidd' yw'r
sectau i Humffrey Davydd ap
Evan yntau ond prif fyrdwn ei
ganu ef yw ei ddyuniad dwys i
weld dwyn y Rhyfel Cartref,
gyda'i ddfrod a'i erchylltra, i
ben:

Mae fy mhobl heb ddim
chwyth,
Yn feirwon syth garneddeu,
Rhyd y cloddiau fel yr ôd,
O eisiau bôd al claddeu ...
Brenin nef a daiar lās,
Ystyria wrth gās Cristnogion,
Ar y tô y daeth y bel,
Gostega ryfel creulon ...

Nid pob un o gefnogwyr y
brenin oedd yn frwd dros y rhyfel;

ffaith, gyda llaw, y daliwyd arni
yn nofel afaelgar Nansi Selwood
'Brychan Dir'.

Is-ddosbarth diddorol yn y
gyfrol yw'r cerddi hynny y gellir
eu galw yn rhai alegoriaidd. Mae
cryn bump ohonynt gyda phedair
yn foesol eu naw a'r bumed, gan
Huw Morus, yn wleidyddol.

Perthyn dwy ohonynt i 'John
Lloyd o'r Cwm' (yn ôl Gwilym
Llyn, y 'Cwm' oedd
Cwmpennanner), gŵr sydd yn hoff
o ddefnyddio enwau clasurol
megis 'Titan', 'Orpheus',
'Boreas', 'Cephyrus', ac ati.
Ganddo ef, o bosibl, y ceir y dull
alegoriaidd ar ei fwyaf cymhleth a
hynny yn neilltuol mewn cerdd lle
cyffelybir bywyd y Cristion i
gastell a amddiffynnir gan Ffydd,
Gobaith a Chariad yn erbyn
ymosodiadau y Saith Pechod
Marwol.

Defnyddir dau bennill ohoni,
erbyn heddiw, i'w canu ar alaw a
ddaeth inni drwy'r traddodiad
llafar, alaw a nodwyd am y tro
cyntaf gan Ifor Ceri yn ei
lawysgrif 'Melus-Seiniau Cymru',
I, Rhan 2, Rhif 42 (Llsg, LLGC,
1940).

Ond gallwn fod yn siwr na
chlywodd Ficer Ceri mo'r
penillion hynny yn cael eu canu ar
yr alaw. Ei ddewis ef oeddynt a
thryw wneud hynny llwyddodd i
dynnu cân serch swynol o
grombil cerdd foesol drom. Enw'r
gân werin, bellach, yw 'Philmela'
a diamau mai Ifor Ceri a'i
bedyddiodd â'r enw.

* * *

IS-DDOSBARTH arall anorfod

yw'r Cerddi Gwyliau: saith Carol
Nadolig, o leiaf, ac un Garol Haf.
Yr ydym yn hen gyfarwydd erbyn
hyn â'r gosodiad mai cerddi
athrawiaethol, yn hytrach na
thelynegol, yw'r Carolau Nadolig
Cymraeg sy'n perthyn yn
arbennig i'r ail ganrif ar bymtheg
a'r ddeunawfed ganrif.

Digon gwir, yn gyffredinol, ond
nid y nodyn athrawiaethol yw'r
un amlycaf bob amser. Gellid
dangos hyn trwy drafodaeth fanwl
o gynnwys y carolau a geir yma
ond nid dyma'r lle i wneud
hynny.

Yn y cyfamser awgrymaf fod yr
athrawiaethau, gan amlaf, yn
ddarostyngedig, neu gwell efallai,
yn gyfrwng i'r alwad i foliannu
Duw yn llawen am ei drugaredd
tuag at deulu dyn. Y gwir yw nad
yw llawer o'r carolau hyn mor
drymaidd a sych ag y tueddir i
feddwl weithiau.

Am y Garol Haf, y mae'n un o
gerddi Humffrey Davydd ap
Evan, y cyfeiriwyd ato yn
gynharach, lle y cawn ef yn
mynegi ei ddiflastod ar ryfela'r
cyfnod: fe'i lluniwyd yn 1650. Ei
hergyd yw y gwrthgyferbyniad
chwerw rhwng haelioni Duw ym
mis Mai a dichter dynion at ei
gilydd. Gall y prydydd hwn, ar ei
orau, ganu yn rymus:

Mae'r drwm yn sowndio
larwm,
A phress a rhodres rhydrwm,
Mae garw ruthrau gorthrwm,
Yn passio rheswm rhal,
Mae'r tân ar powdwr gynnu,
Ar pelets plwm yn chwaraeu,
Fel dyna eu miwsig dannau,
Ar forau o fal.

Mae Cyrph ein cymmydogion,
Ein brodyr a'n cyfeillion,
Yn gelaneddau meirwon,
Yn gleiffon yn y Clai,
A'u hesgyrn yn garneddau,
A'u claddiad rhyd y cloddiau,
A hyn ar lan tymhorau,
Teg o fal.

Mae yma, yn ogystal, ddwy
gerdd eironig, ddychanol, y naill
yn cynnwys cyfarwydd ynglŷn
â sut i fynd yn dlawd a charpiog,
a'r llall ar sut i fyw yn fras,
rhodresgar a chroeniach.

O ran mydr mae mwyafrif
helaeth y cerddi, sef 24 ohonynt,
yn Dri-thrawiad, 5 ar fesur Hen
Benillion (pedair llinell wythsill
yn odli'n gwpledi diacen), 1 ar
Fesur Salm, 1 ar fesur pedair
linell unsillafarddeg yn odli'n
gwpledi acennog ac 1 ar fesur
'Llafar Haf'. Dyma'r mesurau y
gellid yn briodol eu galw yn
fesurau Cymraeg traddodiadol.

Mae'r 8 sy'n weddill ar fesurau
ceinciau penodol, gyda dwy
ohonynt yn cael eu nodi yn
bendant, sef 'Greece & Troy' a
'Spanish Baven' (llygriad o
'Spanish Pavan', enw ar alaw
ddawns).

Yn ei ragymadrodd i CDD
disgrifiodd Thomas Jones y modd
yr argraffwyd y C-L yn
Rhydychen fel 'Cywilyddus', gan
ychwanegu:

... a hynnŷ drwyŷ ddiodeu i'r
Saeson franaru'r Gymraeg
wrth gam osod y llythrennau,
heb geryddu o rŷw gymreigr
dâ y gwaith ar eu hôl cŷn ei
Argraphu ...

Gwir a ddywedodd. Mae'r
cambriantadau yn lleng.

AR WERTH

1. Y Bywgraffiadur Cymreig hyd
1940 (1953). Cyflwr fel newydd.
£40.

2. Hopkiniaid Morganwg, being
a genealogical biography of the
Hopkin family of Glamorgan ...
(Lemuel James Bangor 1909).
376tt.

Argraffwyd 250 o gopïau i
danysgrifwyr yn unig. Y copi hwn
yn cynnwys toriadau o bapurau
newydd, darluniau a mapiau
rhydd, a nodiadau yn llaw yn a
fu'n ymchwilio ymhellach i hanes
yr Hopkiniaid. £50.
Cysyllter â Bangor 362752

YN EISIAU

Y Brodyr: John Gwilym
Jones, 1934.

Ken Owen, 37 Lionel Road,
Canton, Caerdydd. (0222)
341950

THE HISTORY of the Parishes of WHITEFORD, and HOLYWELL



By Thomas Pennant

Adargraffiad cyfyngedig o argraffiad 1796 gan Wasanaeth
Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Clwyd.

328 tt. 22 o ddarluniau, nifer ohonynt gan Moses Griffith.
Cyflwyniad bywgraffiadol gan R. Paul Evans, M.A.

Pris: £14.95 ynghyd â £1.50 ar gyfer pacio a phostio.

Gyrrer slec yn daladwy i Gyngor Sir Clwyd at
Y Llyfrgellydd, Llyfrgell Treffynnon, North Street,
Treffynnon, Clwyd (Rhodder PENNANT ar yr amlen)

L.G. HEYWOOD

Usher House, 30 Mill Street,
LUDLOW, Shropshire SY8 1BG
Ffôn: (0584) 2658

Yr ydym yn arbenigo mewn
llyfrau ar Gymru a'r Gororau.
Catalog 14 yn barod yn awr.
Anfonwch am gopi rhad.
Yn awyddus i brynu llyfrau da.